Taith Unionlin LÔN LAS CEFNI Linear Route

Mae Lôn Las Cefni yn llwybr beicio llinol sy'n cysylltu Bodffordd a Rhosmeirch â Llangefni, Malltraeth a Niwbwrch. Ar hyd y daith, gallwch deithio heibio pwll y cob ac aber Malltraeth, yna dilynwch Afon Cefni drwy Gors Ddyga a Llangefni at Lyn Cefni.

Mannau Mynediad:

A1 - Bodffordd SH4300 7699 (dilynwch y B5109 o Langefni, cymerwch y tro cyntaf ar y dde ym Modffordd, mae'r maes parcio tua 300m ar y dde)
A2 - Rhosmeirch SH4524 7826 (dilynwch y B5111 o Langefni drwy Rosmeirch, dilynwch y ffordd i'r chwith, mae'r troad ar y chwith tua 1km ar ôl y tro hwn)
C - Llangefni SH4584 7592
D - Llangefni SH4597 7564
H - Malltraeth SH4070 6879 (dilynwch yr A4080 o Niwbwrch, y maes parcio ar y chwith ar ôl i'r ffordd groesi Afon Cefni)
I - Coedwig Niwbwrch SH4115 6709
J - Niwbwrch SH4230 6563

Pellter A1 - J: 21 km / 13.05 milltir
Amser seiclo bras A1 - J: 2 awr
Gradd: Yn wastad ar y cyfan, rhai rhannau pantiog.

Mae adrannau A1/A2 - C, D - G a H - I oddi ar y ffordd ond rhaid croesi'r ffordd yn achlysurol. Mae'r rhan fwyaf o adran I - J oddi ar y ffordd gyda rhan fach ar y ffordd wrth fynd i mewn i Niwbwrch (fe all y llwybr hwn newid oherwydd gwaith coedwigo). Mae adran C - D drwy Langefni (byddwch yn ymwybodol o'r system unffordd). Mae adran G - H ar hyd isffordd.

Atyniadau: Llyn Cefni, Llangefni, Cors Ddyga, Pentref ac Aber Malltraeth, Cob Pool, Coedwig Niwbwrch, Llys Rhosyr, Pentref Niwbwrch, golygfeydd o Eryri.

TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS

Bws i Langefni:
Cysylltwch â Traveline Cymru
Bws i Falltraeth a Niwbwrch: Arriva Cymru gwasanaeth **42** Bangor - Niwbwrch - Llangefni. **Ffôn: 01248 750444**; Eifion's Coaches **54** Llangefni - Llangaffo. **Ffôn: 01407 721111**

Lôn Las Cefni is a linear cycleway linking Bodffordd and Rhosmeirch to Llangefni, Malltraeth and Newborough. Along the route take in the cob pool and Malltraeth estuary, then follow the Afon Cefni through "Cors Ddyga" and Llangefni to the Cefni Reservoir, "Llyn Cefni".

Access Points:

A1 - *Bodffordd SH4300 7699 (follow B5109 from Llangefni, take first turning right in Bodffordd, car park is approx 300m on the right)*
A2 - *Rhosmeirch SH4524 7826 (follow B5111 from Llangefni through Rhosmeirch follow the road left, turning is on the left approx 1km after this bend)*
C - *Llangefni SH4584 7592*
D - *Llangefni SH4597 7564*
H - *Malltraeth SH4070 6879 (follow A4080 from Newborough, car park on left after road crossed the Afon Cefni)*
I - *Newborough Forest SH4115 6709*
J - *Newborough SH4230 6563*

Distance A1 - J: *21 km / 13.05 miles*
Approx cycling time A1 - J: *2 hrs*
Grade: *Mostly* flat, some undulating sections.

Sections A1/A2 - C, D - G and H - I are off road with occasional road crossing necessary. Section I - J is mostly off road with a small on road part into Newborough (this route may change due to forrestry operations). Section C - D is through Llangefni (be aware of the one way system). Section G - H is along a minor road.

Attractions: *Llyn Cefni, Llangefni, Malltraeth Marsh, Malltraeth Village & Estuary, Cob Pool, Newborough Forest, Llys Rhosyr, Newborough Village, views to Snowdonia.*

PUBLIC TRANSPORT

Bus to Llangefni:
Contact Traveline Cymru
Bus to Malltraeth & Newborough: *Arriva Cymru service* ***42*** *Bangor - Newborough - Llangefni.* ***Tel: 01248 750444****;* *Eifions coaches* ***54*** *Llangefni - Llangaffo.* ***Tel: 01407 721111***

Mae'r wybodaeth am fysiau yn y daflen hon yn gywir adeg ei hargraffu; am y wybodaeth ddiweddaraf cysylltwch â Traveline Cymru.
Bus information on this leaflet correct at time of print, for up to date information contact traveline cymru.

LÔN LAS CEFNI



Allwedd / Key



Am fwy o wybodaeth gweler Map Arolwg Ordnans ® Landranger 114 Môn

For more detail of routes see Ordnance Survey Map ® Landranger 114 Anglesey

Ailgynhyrchwyd o'r map Landmap® 1:2500 drwy ganiatâd yr Arolwg Ordnans ar ran rheolwr Llyfrfa ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron 2008. Cedwir pob hawl. Rhif Trwydded : AL 100027587.
Reproduced from the Landmap® 1:2500 map by permission of Ordnance Survey® on behalf of The Controller of Her Majesty's Stationery Office, © Crown Copyright 2008. All rights reserved. Licence No: AL 100027587.